# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd, 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 8 Tachwedd 2012 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Huw Williams.
Mynychodd y Cynghorwyr J.R. Bartley a W. Mullen-James fel Sylwedyddion.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol (LA), Cydgysylltydd Diogelu Oedolion Agored i Niwed (NT), Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu ac Ansawdd (ST), Rheolwr Strategol – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ER), Cydgysylltydd Rhanbarthol Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng (MB), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH) a’r Swyddog Gweinyddol (CW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, y Cynghorydd Merfyn Parry a'r Cynghorydd Bill Tasker.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganodd unrhyw Aelodau unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes a oedd i’w drafod yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

(i) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 27ain Medi 2012.

Materion yn codi:-

5. Adolygiad o Addysg Uwch yng Ngogledd-ddwyrain Cymru – yn dilyn pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd H O Williams, bod y Times University Guide wedi canfod lefel isel o foddhad myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndwr, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid wedi cysylltu â Phrifysgol Glyndwr i ofyn am esboniad.

Esboniodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd bod ymateb wedi ei dderbyn a dosbarthwyd copi yn y cyfarfod. Esboniodd bod penderfyniad y Pwyllgor Craffu, a gynhaliwyd ar 27ain Medi 2012, wedi ei anfon ymlaen at Gadeirydd y Panel Adolygu Annibynnol. Hysbyswyd y Pwyllgor y gellid cyflwyno adroddiad diweddaru pellach os gofynnir am hynny gan yr Aelodau.

6. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J Butterfield mewn perthynas ag effaith y Comisiynwyr Heddlu newydd ar Blismona mewn cymunedau lleol, gyda chyfeiriad arbennig at y gwrthdrawiad posibl rhwng rolau'r Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu, cytunodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ofyn am esboniad mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd. Cyfeiriodd at y diweddariad ar faterion yr Heddlu a ddarparwyd gan Reolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a gynhwyswyd fel Atodiad 4 i eitem rhif 9 ar y rhaglen.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

(ii) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 11eg Hydref, 2012.

***PENDERFYNWYD –*** *derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR AMDDIFFYN OEDOLION YN SIR DDINBYCH

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles yn ymwneud â pherfformiad blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn cydymffurfio â Chanllawiau Statudol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i alluogi adolygiad o'r cynnydd dros y deuddeg mis diwethaf, ac yn sicrhau bod gofynion polisi amddiffyn oedolion yn rhan o agwedd gyffredinol y gyfundrefn tuag at ddarparu a datblygu'r gwasanaeth.

Y ddogfen bolisi allweddol mewn Amddiffyn Oedolion ar gyfer Sir Ddinbych oedd Polisi a Chanllawiau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, a oedd yn seiliedig ar y canllawiau â gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru 'Mewn Dwylo Diogel'. Roedd Fforwm Gogledd Cymru yn monitro datblygiadau i scrhau eu bod wedi eu hymgorffori mewn arferion presennol. Roedd 'Mewn Dwylo Diogel' yn amlygu cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol wrth gymryd y rôl arweiniol yn y broses.

Bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes grynhoi cynnwys yr adroddiad, a oedd yn cynnwys materion allweddol a meysydd gweithgaredd yn ymwneud ag Amddiffyn Oedolion 2010/11, Hyfforddiant a ddarparwyd gan Sir Ddinbych mewn perthynas ag amddiffyn oedolion, Dangosyddion Perfformiad a Chynllun Gweithredu Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA). Roedd datblygiadau diweddar yn cynnwys:

- Ymgynghori ar Fesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2012.

- Ystyried y posibilrwydd o gael Cyd-bwyllgor Amddiffyn Oedolion gyda Chonwy.
- Arolwg Achos Difrifol a ymgymerwyd mewn perthynas ag achos dynes oedrannus a lofruddiwyd gan ei gŵr.
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau i argymell model ar gyfer rheoli gwaith diogelu oedolion yn Sir Ddinbych yn y dyfodol.
- Datblygu Cynllun Gweithredu gan Bwyllgor Amddiffyn Oedolion Sir Ddinbych.

Roedd yr Atodiadau i'r adroddiad yn cynnwys peth o'r data allweddol ar gyfer gwaith amddiffyn oedolion agored i niwed yn Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd Sir Ddinbych 244 atgyfeiriad er bod llawer o achosion yn parhau ac roedd casglu data yn anghyflawn.

Atodiad 1 – dangos y grwpiau a effeithiwyd gan gamdriniaeth.
Atodiad 2 – dangos y mathau o gamdriniaeth yr oedd pobl yn ei dioddef.
Atodiad 3 – manylu lle'r oedd y gamdriniaeth wedi digwydd.
Atodiad 4 – adnabod y bobl yr honnwyd eu bod yn gyfrifol am gamdrin.
Atodiad 5 – dangos statws honiadau.
Atodiad 6 – dangos y canlyniad i'r dioddefwr honedig.
Atodiad 7 – dangos y canlyniad i'r un a oedd yn camdrin.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd J.A. Davies ar yr angen i ddarparu llinell ofal gyfrinachol i oedolion. Esboniodd bod taflenni a ddosbarthwyd ar ran Fforwm Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys rhif ffôn anghywir wedi cael eu galw'n ôl lle bo modd, ac roedd rhif ffôn arall wedi ei roddi allan ac wedi ei restru ar eu gwefan. Cytunodd yr Aelodau y dylid ystyried y posibilrwydd o ddarparu llinell ofal i oedolion, ynghyd â manylion y costau dan sylw, yn cael ei archwilio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Butterfield, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes fanylion y Cynlluniau Byw yn y Gymuned a oedd yn rhedeg yn Sir Ddinbych a chytunodd ystyried y posibilrwydd bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu priodol yn ymweld â detholiad o'r cynlluniau a oedd yn rhedeg ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J R Bartley at Atodiad 3 yr adroddiad a mynegodd bryder ynglŷn â sgiliau'r heddlu a oedd yn delio â dioddefwyr gydag anabledd dysgu. Amlinellwyd manylion y cysylltiadau rhwng Uned Gwarchod y Cyhoedd a POVA, gan roddi sylw penodol at bresenoldeb yr Heddlu ar y Pwyllgor Diogelu Oedolion. Rhoddwyd cadarnhad bod yr Heddlu yn sensitif i faterion yn ymwneud ag oedolion agored i niwed ac i achosion yn ymwneud â phersonau ag anabledd dysgu, a bod yr hyfforddiant priodol wedi ei roddi i heddweision mewn perthynas â hyn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes, trwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gamdriniaeth, y gallai fod perygl bod achosion proffil uchel yn arwain at atgyfeiriadau a allai fod yn her i allu'r tîm POVA i ddelio â'r gwaith yn y strwythur presennol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd pwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac amlygwyd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wrth reoli atgyfeiriadau. Pwysleisiodd y Cynghorydd E.A. Jones arwyddocad sicrhau na fyddai capasiti yn rhwystro neu'n gwrthannog pobl ag anghenion rhag defnyddio'r gwasanaeth.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i faterion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Rhoddwyd manylion a gwybodaeth gefndir yn ymwneud â'r Astudiaethau Achos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.
- Esboniwyd y byddai gofynion hyfforddi staff a safonau ar gyfer gofalwyr a gyflogwyd gan asiantaethau yn cael eu pennu yn y contractau perthnasol a chan AGGCC. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes y sefyllfa yn gyfansoddiadol mewn perthynas â chwmnïau gofal preifat. Cadarnhaodd y gellid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r gwasanaethau hyfforddi a ddarparwyd gan Gwasanaethau Cymdeithasol, a gofyn am esboniad gan yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas â gwahodd cwmnïau gofal preifat i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Craffu.
- Cyfeiriwyd at honiadau camdriniaeth a amlygwyd yn y wasg yn ddiweddar, gan gyfeirio'n benodol at Adroddiad Waterhouse. Esboniwyd bod archwiliadau yn y cyfnod cynnar ar hyn o bryd, ond y gellid cyflwyno adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol yn y dyfodol os oedd angen.
- Adroddiad diweddaru ar allu'r gwasanaethau Diogelu Oedolion i ddelio â chynnydd posibl mewn atgyfeiriadau i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu mewn 6 mis.

Ar ôl trafodaeth fer, fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau:-*

*(a) Yn cydnabod natur bwysig agwedd gorfforaethol tuag at Ddiogelu Oedolion Agored i Niwed, cyfrifoldeb y Cyngor i ystyried hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac yn cydnabod hyn ynghyd â'r ymroddiad a'r arwyddocad a roddwyd gan Sir Ddinbych i Ddiogelu Plant.*
(b) *Argymell y posibilrwydd o ddarparu llinell ofal oedolion.*
*(c) Cytuno y dylid gofyn am esboniad gan yr Adran Gyfreithiol o ran rhoi gwahoddiad i gwmnïau gofal preifat fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Craffu.*
*(d) Gofyn bod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn hystyried ymarferoldeb gwneud trefniadau i Aelodau'r Pwyllgor Craffu priodol ymweld â Chynlluniau Byw yn y Gymuned sy'n rhedeg yn y Sir ar hyn o bryd.*
*Cytuno bod adroddiad diweddaru ar allu'r gwasanaethau Diogelu Oedolion i ddelio â chynnydd posibl mewn atgyfeiriadau yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ymhen 6 mis.*

## 6 CYD-WASANAETH DYLETSWYDD MEWN ARGYFWNG Y TU ALLAN I ORIAU ARFEROL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes, yn amlinellu cynnydd Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWEDT), wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ar y datblygiadau yn y gwasanaeth NEWEDT, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:-

- Adborth o weithdy a gynhaliwyd i Adolygu Model Gweithredol y Gwasanaeth.
- Cais gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddod yn aelod o'r NEWEDT.
- Gwybodaeth a Systemau.
- Adolygiad o Ganlyniadau Gwasanaeth a Dangosyddion Perfformiad 2011-12
- Amcanion Gwasanaeth Allweddol 2012-13.

Roedd NEWEDT yn cynnig gwasanaeth gwaith cymdeithasol mewn argyfwng, wedi ei leoli a'i reoli yn Wrecsam, ar gyfer Siroedd Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn ystod yr oriau pan roedd gwasanaethau prif ffrwd ar gau. Esboniwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud cais i ddod yn Bartner yn y NEWEDT. Roedd ffocws yr adolygiad o Fodel Cyflawni Gweithredol y Gwasanaeth wedi ymgorffori strategaeth y gwasanaeth; trefniadau llywodraethu; strwythur cyfundrefnol ac atebolrwydd rheoli, gan gynnwys ystyried arbedion effeithlonrwydd posibl. Roedd pwyntiau gweithredu a adnabuwyd gan yr adolygiad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac yn mynd rhagddynt.

Ar ôl cytundeb gan Fwrdd Rheoli Gweithredol y Bartneriaeth, roedd Ymgynghorydd wedi ei gyfweld a'i gomisiynu i gwblhau achos busnes ar ran yr Awdurdodau Partner, a'r prif ffocws oedd ymarferoldeb cynnig i wneud y Bartneriaeth bresennol yn fwy a dadansoddiad risg trwyadl.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion ar Wybodaeth a Systemau, Adolygiad o Ganlyniadau Gwasanaeth a Dangosyddion Perfformiad, Data Perfformiad, Amcanion Gwasanaeth Allweddol 2012 -13 ac amlinelliad o'r broses Ymgynghorol.

Mewn ateb i gwestiwn ar amserau ymateb a'r pellter a deithir i fynd i argyfwng, cadarnhaodd Cydgysylltydd Rhanbarthol y Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng mai 45 munud fyddai'r amser mwyaf i ymateb yn y Sir. Fodd bynnag, ymgymerwyd â gwaith gyda nifer o Asiantaethau eraill a oedd yn darparu cymorth os oedd ei angen. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes bod amserau ymateb mewn perthynas â Meddygon yn gweithredu dan Adran 12 Deddf Iechyd Meddwl 1983 nawr wedi gwella.

Amlygodd y Cynghorydd E.A. Jones agwedd cydraddoldeb y broses a phwysigrwydd sicrhau amddiffyn hawliau pobl sy'n agored i niwed. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gwasanaeth. Hefyd, rhoddodd amlinelliad o'r broses a fabwysiadwyd, y gellid, os oedd angen, ei chyflwyno mewn ieithoedd eraill.

Hysbyswyd y Pwyllgor o drefniadau'r gwasanaeth argyfwng ar gyfer cyfnod y Nadolig, manylion yr hwn a oedd wedi eu cynnwys ar y rhyngrwyd, a chytunwyd bod y rhif argyfwng yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies, darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes fanylion darparu hyfforddiant i aelodau staff, gyda chyfeiriad penodol at ddarparu hyfforddiant i sicrhau hod staff yn adnabod problemau sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl.

Ymatebodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Butterfield a rhoddodd fanylion y broses o fabwysiadwyd ar gyfer delio â materion, pryderon ac argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

Ar ôl trafodaeth fer, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau:-*

*(a) Yn derbyn a chydnabod cynnwys yr adroddiad, a*
*(b) Bod y rhif ffôn argyfwng yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.*

**7 CYNLLUN GWEITHREDU DIOGELU AR ÔL SIR BENFRO**

Roedd copi o gyd-adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid, yn amlinellu Cynllun Gweithredu ar ôl Sir Benfro, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid at fater diogelu plant a'r cyhoeddusrwydd arwyddocaol yn ymwneud ag achosion Jimmy Savile a Bryn Estyn. Cyflwynodd yr adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau cyd-archwiliad AGGCC ac Estyn mewn perthynas â thrin a rheoli honiadau o gamdriniaeth broffesiynol a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn y gwasanaethau addysg yn Sir Benfro. Nododd yr adroddiad fethiannau arwyddocaol gan yr Awdurdod o ran diogelu plant a chyflwynodd gyfres o ofynion. Roedd Cyd-adolygiad wedi ei wneud i ystyried cynnydd a gwneud argymhellion pellach. Roedd yr adroddiadau hyn yn nodi methiannau ac yn gwneud argymhellion yn y meysydd canlynol:-

Recriwtio
Cadw cofnodion
Prosesau, polisïau a gweithdrefnau
Hyfforddiant
Adrodd a chraffu

Roedd materion penodol eraill wedi eu hamlygu wedyn a oedd yn ymwneud ag ystafelloedd "seibiant" yn ysgolion Sir Benfro, ac esboniwyd bod gan Sir Ddinbych bolisi cyffredin mewn ysgolion uwchradd ar 'Ddefnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol Cyfyngol'. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd E.A. Jones, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid bod y polisi wedi ei anfon at ysgolion uwchradd gyda'r nod bod y polisi, neu fersiwn derbyniol ohono, yn cael ei fabwysiadu gan holl gyrff llywodraethol ysgolion uwchradd erbyn y Pasg 2013. Cadarnhaodd mai cyfrifoldeb yr ysgolion fyddai sicrhau bod ganddynt fersiwn derbyniol a gytunwyd o'r polisi. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol amlinelliad o bwrpas a defnydd ystafelloedd "seibiant" yn ysgolion Sir Ddinbych a rhoddodd sicrhad bod disgyblion yn cael eu goruchwylio wrth ddefnyddio cyfleusterau'r ystafelloedd "seibiant".

Roedd yr arfer yn Sir Ddinbych ac Awdurdodau eraill yng Nghymru wedi eu harchwilio a'u hadolygu mewn perthynas â chanfyddiadau ac argymhellion y ddau

adroddiad, ac roedd camau i wella wedi eu hychwanegu at Gynllun Gweithredu Diogelu, Atodiad 1 i alluogi monitro cynnydd yn gorfforaethol.

Roedd yr adroddiad yn manylu'r camau a gymerwyd gan Sir Ddinbych mewn ymateb i ganfyddiadau'r Arolygiaeth yn Sir Benfro ac roedd yn rhoi gwybodaeth ar weithredu camau yn y Cynllun Camau Diogelu Corfforaethol i fonitro cynnydd. Roedd yn arfarnu trefniadau craffu Bwrdd Diogelu Plant Lleol Conwy a Sir Ddinbych ac yn delio â materion mwy cyffredinol ynghyd â phwyntiau polisi a gweithdrefn. Esboniodd bod rhai materion a godwyd yn y Cynllun Gweithredu Diogelu yn well o gael eu trin gan y Bwrdd Diogelu Lleol, ac roedd y strwythur ar gyfer craffu ar drefniadau diogelu wedi ei amlinellu.

Roedd Cynllun Gweithredu Diogelu Sir Ddinbych wedi ei ddatblygu wrth i faterion eraill godi neu gael eu codi yn genedlaethol, gyda chynnydd yn cael ei yrru trwy'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Nid oedd y trefniadau wedi disodli rhai'r Bwrdd Diogelu Lleol ond roeddynt wedi eu dylunio i sicrhau ffocws priodol ar Sir Ddinbych fel cyfundrefn gorfforaethol gymhleth aml-swyddogaethol.

Roedd nifer o bwyntiau a meysydd allweddol wedi eu hamlygu yn yr adroddiad a oedd yn ymwneud ag:

- Archwiliadau CRB/geirda a Pholisïau AD ynghyd â chyrff Diogelu a Thrydydd Sector.
- Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu.
- Camau cyflogaeth.
- Llywodraethwyr ysgol.
- Adrodd i Fwrdd Lleol Diogelu Plant.
- Rhestr Wirio Archwilio Diogelu Ysgolion.
- Llywodraethwyr Ysgol gyda chyfrifoldeb am ddiogelu.
- Ymyraethau Cyfyngol / Ystafelloedd Seibiant mewn Ysgolion / Sefydliadau.

Mewn perthynas ag Archwiliadau CRB, Geirda a Pholisïau AD ynghyd â Diogelu a cyrff Trydydd Sector, cadarnhawyd bod archwiliadau CRB yn cael eu gwneud yn gyson gan Sir Ddinbych, gan gynnwys gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio'n uniongyrchol â phlant, ac roedd cynnydd manwl ar y gwaith hwn wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Cyfeiriwyd at effaith Deddf Amddiffyn Rhyddidau 2012, a oedd yn pennu newidiadau i'r broses archwilio CRB gydag amharodrwydd y CRB i ymgymryd ag archwilad ar unigolion penodol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai cyflwyniad y Ddeddf yn gwneud archwiliadau CRB yn y dyfodol yn heriol iawn. Rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol fanylion yr archwiliadau CRB a ymgymerwyd mewn perthynas â recriwtio staff o fewn yr Awdurdod, a chadarnhaodd bod yr holl wybodaeth wedi ei chynnwys ar system TRENT a bod cyfeiriadau yn cael eu harchwilio'n flynyddol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd J A Davies, ar yr angen i gydnabod a delio â phroblemau a wynebwyd gan ofalwyr ifanc, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid bod ymdrechion yn cael eu gwneud, trwy Strategaeth Gofalwyr ifanc, i wella ymwybyddiaeth mewn ysgolion a broblemau a allai godi i ofalwyr ifanc. Cadarnhaodd bod hyfforddiant yn cael ei roddi i staff i'w cynorthwyo gydag adnabod a delio â phroblemau a wynebwyd gan ofalwyr ifanc.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Butterfield, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fanylion Aelodaeth y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, a oedd yn bartneriaeth statudol aml-asiantaeth. Cytunodd y swyddogion bod copïau o'r adroddiad yn ymwneud â 'Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol Cyfyngol' yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor i ddibenion gwybodaeth.

Ar ôl trafodaeth fer, fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau:-*

*(a) Yn derbyn a chydnabod cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar Ddiogelu.*
*(b) Yn cydnabod rôl a swyddogaethau craffu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant mewn perthynas â gweithgareddau diogelu ledled Conwy a Sir Ddinbych a*
*(c) Yn gofyn bod copïau o'r polisi 'Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol Cyfyngol' yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.*

Gofynnodd y Cynghorydd J Butterfield bod ei phryderon bod rhai Aelodau etholedig wedi cael mwy o amser nag eraill i fynegi eu barn wrth ystyried eitemau busnes yn cael eu cofnodi. Esboniodd y Cadeirydd iddo wneud pob ymdrech i fod yn deg a di-duedd wrth ddyrannu amser i Aelodau siarad.

## 8 CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID STRATEGOL TAIR BLYNEDD

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, a oedd yn manylu cefndir, pwrpas a bwriadau'r Cynllun Gwasanaeth Ieuenctid Strategol, ac yn cyflwyni'r drafft terfynol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'i gyhoeddi a'i ddosbarthu wedi hynny, wedi ei gylchlythyru gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ac yn gweithio i rwystro troseddu ac ail-droseddu gan blant a phobl ifanc dan 18 oed. Mae'n monitro ac yn adrodd ar berfformiad y systemau cyfiawnder ieuenctid i'r Gweinidog Cartref trwy Gynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid Strategol a gyflwynir bob blwyddyn gan bob Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a thrwy gasglu data perfformiad. Mae Timau Rhanbarthol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn derbyn cyflwyniad y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid Strategol amlinelliad o'r adroddiad a oedd yn amlygu'r meysydd allweddol canlynol:-

- agweddau gweithredol a swyddogaethol y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol.

- Blaenoriaethau lleol:-
- Cwsmeriaid syflaenol
- Cyflwyno gwasanaeth ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy.

- Blaenoriaethau strategol ar gyfer y 3 blynedd nesaf:-

- Sut mae'r blaenoriaethau yn helpu cyflawni Uchelgeisiau Strategol a rolau craidd y Cyngor.
- Canlyniad ac amcanion cyflawniad llwyddiannus blaenoriaethau.

- Amcanion gweithredol a gytunwyd ar gyfer 2012-15, sef blaenoriaethau pellach â thema yn adran 3 y cynllun gweithredol.

Rhoddwyd crynodeb manwl o'r tair adran yng Nghynllun Busnes Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych 2012-2015 gan Reolwr Strategol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Cyfeiriodd yn benodol at y chwech Dangosydd Perfformiad allweddol a oedd yn manylu:

- Newydd-ddyfodiaid tro cyntaf
- Medru cyrchu llety addas.
- Collfarnau gwarchodol.
- Cyfraddau ail-droseddu.
- Cyfranogiad mewn Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth.
- Camddefnyddio Sylweddau (Gwasanaethau Asesu a Thrin).

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Nid oedd y newidiadau yn y Gwasanaeth Prawf wed cael effaith andwyol ar gyflwyno'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Fodd bynnag, byddai unrhyw effaith yn y dyfodol yn cael ei hadrodd i'r Aelodau.
- Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei fonitro trwy'r chwech Dangosydd Perfformiad Allweddol, gyda phob aelod staff yn cael mewnbwn i'r system cofnodi data ar ôl ymgymryd ag asesiadau cynhwysfawr. Rhoddwyd amlinelliad o'r broses graffu drylwyr i'r Pwyllgor.
- Darparwyd manylion Cyfranogiad mewn Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ac amlinellodd Rheolwr Strategol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid waith y ddau Swyddog Addysg a gyflogwyd yn y gwasanaeth. Cadarnhawyd bod asesiadau risg priodol yn cael eu hymgymryd mewn achosion lle cafwyd problemau ynglŷn ag ymddygiad.
- Roedd holl aelodau staff y gwasanaeth wedi cael archwiliad CRB ac roedd gwirfoddolwyr yn cael archwiliadau CRB manylach. Esboniwyd y byddai goblygiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn effeithio pob cyfundrefn a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad y flwyddyn nesaf.
- Esboniwyd bod problemau ariannu yn cynrychioli'r bygythiad mwyaf i'r gwasanaeth ac amlinellwyd manylion y ffynhonnell ariannu, a phroblemau cysylltiedig, i'r Pwyllgor.
- Esboniodd y Rheolwr Strategol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bod Cofrestr Risg yn cael ei chadw a bod Cynllun Gweithredu at y dyfodol yn cael ei ddatblygu. Cadarnhawyd nad oedd modd darogan newidiadau i'r gwasanaeth a'i bod yn anodd cynllunio ar ei gyfer gyda newidiadau i'r system remánd yn cael goblygiadau ariannol posibl i Awdurdodau Lleol, gyda chyfeiriad penodol at ddefnydd ysbeidiol gwasanaethau yn arwain at gostau gweithredu uwch i'r darparwr gwasanaeth.
- Amlinellwyd manylion darpariaeth llety a goblygiadau cyllidebol cysylltiedig gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mewn ateb i gwestiwn gan y

Cadeirydd, amlinellodd y swyddogion y trefniadau a fodolai i sicrhau diogelwch plant yn y ddalfa a rhwystro achosion o hunan-niweidio.

Ar ôl trafodaeth fer, fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Craffu Partneriethau yn derbyn a chydnabod adolygiad Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Strategol Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2012/13.*

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei Flaenraglen Waith ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd Blaenraglen Waith y Cabinet wedi ei chynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol:-

(i) – Darpariaeth teledu cylch cyfyng – fel y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, gofynnwyd am esboniad yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol Corfforaethol ar nifer o gwestiynau a godwyd mewn perthynas â darpariaeth teledu cylch cyfyng Sir Ddinbych. Derbyniwyd diweddariad ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod ac roedd y prif bwyntiau wedi eu crynhoi yn Atodiad 3 i'r adroddiad. Cytunodd yr Aelodau bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried yr eitem hon yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2013, pe byddai cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei ad-drefnu.

(ii) Materion ynglŷn â'r Heddlu wedi eu cyfeirio i Grŵp Gweithredu'r Heddlu – Roedd nifer o faterion yn ymwneud â chyfraith a threfn wedi eu codi ac roedd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi dweud y cawsai'r rhain eu cyfeirio at Grŵp Gweithredu'r Heddlu. Roedd ymateb gan Reolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Dosbarthwyd copi o ffurflen gynnig ar gyfer eitemau ar raglen Pwyllgorau Craffu, yn gofyn am gynnwys eitem yn ymwneud â Strategaeth Wybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru yn y cyfarfod. Cytunodd yr Aelodau bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar y Flaenraglen Waith i'w hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13eg Ionawr, 2013.

Ystyriodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel y manylwyd yn Atodiad 1. Cytunodd yr Aelodau bod y newidiadau canlynol yn cael eu cynnwys yn y flaenraglen waith ar gyfer y Pwyllgor:-

29ain Tachwedd 2012 – Mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Craffu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 29ain Tachwedd 2012, gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno unrhyw ymholiadau cyffredinol ar y GIG i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, cyn 13eg Tachwedd 2012, i alluogi eu hanfon ymlaen at y Bwrdd Iechyd. Cytunodd y Pwyllgor, gan fod eitemau yn ymwneud â'r Potensial i gael Darpariaeth Gofal Dydd Gydweithredol mewn perthynas ag ardaloedd gwledig y Sir

ac Ymddygiad Heriol a'i effaith ar wasanaethau'r Cyngor yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd, y dylid ystyried y posibilrwydd o'u cynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd ar 29ain Tachwedd 2012.

25ain Ebrill 2013 – Adroddiad Galluogrwydd Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 p.m.